

Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

SoNaRR2020 cofrestru glaswelltiroedd lled-naturiol pwysau a chyfleoedd allweddol

Cyfoeth Naturiol Cymru

Adroddiad Terfynol

Gwybodaeth am Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

Tystiolaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein strategaethau, penderfyniadau, gweithrediadau a chynghor i Lywodraeth Cymru ac eraill wedi'u tanategu gan dystiolaeth gadarn sydd o ansawdd uchel. Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol bwysig meddu ar ddealltwriaeth dda o'n hamgylchedd newidiol.

Byddwn yn gwireddu'r weledigaeth hon drwy'r isod:

- Cynnal a datblygu sgiliau arbenigol technegol ein haelodau staff;
- Diogelu ein data a'n gwybodaeth;
- Sicrhau rhaglen ragweithiol o waith dystiolaeth sydd â digon o adnoddau;
- Parhau i adolygu ac ychwanegu at ein dystiolaeth er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr heriau yr ydym yn eu hwynebu; a
- Rhannu ein dystiolaeth mewn modd agored a thryloyw.

Teitl: **SoNaRR2020 cofrestru glaswelltiroedd lled-naturiol pwysau a chyfleoedd allweddol**

Adolygiadau gan Gymheiriaid: Adolygiad gan gymheiriaid mewnol ac allanol

Cyfyngiadau: Dim

Cynnwys yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

Mae'r ddogfen hon yn un o grŵp o gynhyrchion sy'n ffurfio'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020). Dyma'r gyfres lawn o gynhyrchion:

Crynodeb Gweithredol. Rhagair, Cyflwyniad, Crynodeb a Chasgliadau. Cyhoeddwyd fel cyfres o dudalennau gwe ym mis Rhagfyr 2020

Y Cofrestrau Adnoddau Naturiol. Ysgogwyr, Pwysau, Effeithiau a Chyfleoedd i Weithredu ar gyfer wyth Ecosystem Eang. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ac fel ffeithlun rhyngweithiol ym mis Rhagfyr 2020

Asesiadau yn erbyn pedwar nod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Rhagfyr 2020:

Nod 1 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Nod 2 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae ecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid disgwylidig ac anrhagweledig

Nod 3 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae gan Gymru leoedd iach i bobl sydd wedi'u gwarchod rhag peryglon amgylcheddol

Nod 4 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Cyfrannu at economi adfywiol, cyflawni lefelau cynhyrchu a defnydd cynaliadwy

Asesiad o Fioamrywiaeth Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

Asesiadau yn ôl Ecosystem Eang. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ymylon Arfordirol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ffermdir Caeedig

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Dŵr Croyw

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Yr Ardal Forol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Mynyddoedd, Gweundiroedd a Rhosydd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Coetiroedd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Trefol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Glaswelltir Lled-naturiol

Asesiadau yn ôl Thema Drawsbynciol. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ansawdd Aer

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Y Newid yn yr Hinsawdd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Ynni

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Priddoedd a Defnydd Tir

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Gwastraff

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Dŵr

Anghenion tystiolaeth diweddaredig yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

Acronymau a Rhestr Termau. Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 a diweddarwyd ym mis Mawrth 2021

Dyfyniad argymelledig ar gyfer y rhan hon o'r adroddiad:

Cyfoeth Naturiol Cymru. 2020. SoNaRR2020 cofrestru glaswelltiroedd lled-naturiol pwysau a chyfleoedd allweddol. Cyfoeth Naturiol Cymru.

Hawlfreintiau

Oni nodir yn wahanol, gall cynnwys yr adroddiad hwn gael ei ddefnyddio dan [drwydded Llywodraeth Agored](#)

Oni nodir yn wahanol, mae'r holl graffiau, mapiau, tablau a delweddau eraill yn © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys ffin Cymru:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl. © Hawlfraint y Goron a chronfa ddata 2020. Rhif trwydded 100019741 yr Arolwg Ordians.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys agweddau morol:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl © y Goron Brydeinig ac OceanWise Ltd, 2020. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded EK001-20120402. Ni ddylid eu defnyddio at ddibenion mordwyaeth.

Glaswelltiroedd Lled-naturiol

Cofrestr Adnoddau Naturiol

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020

Mae'r Cofrestrau Adnoddau Naturiol yn allbwn pwysig Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Eu pwrpas yw distyllu'r pwysau a chyfleoedd allweddol a nodwyd yn y penodau a darparu asesiad hygrych o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae Cofrestr Adnoddau Naturiol Glaswelltiroedd Lled-naturiol yn cynnwys dwy ddogfen ychwanegol:

1. SoNaRR2020 cofrestru glaswelltiroedd lled-naturiol asesu SMNR
2. SoNaRR2020 Register semi natural grasslands evidence

Tabl 1 Prif Sbardunau, Pwysau ac Effeithiau ar Ecosystem Glaswelltiroedd Lled-naturiol

| Prif sbardunau | Pwysau | Effaith |
|-------------------------------|--------------------------------|--|
| Y newid yn yr hinsawdd | 1. Newid ym mhatrymau'r tywydd | <p>1.1. Yn achosi newid hydroleg rhai systemau glaswelltir gwlyb ac achosi iddynt farw yn ôl, sy'n cael ei achosi gan sychu eithafol. Asesiad hyder: CANOLIG Nod 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>1.2. Gall effeithiau anuniongyrchol y newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys newidiadau i reoli tir, fod yn fwy arwyddocaol. Asesiad hyder: CANOLIG Nod 2 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> |

| Prif sbardunau | Pwysau | Effaith |
|-----------------------------|------------------------|--|
| Llygredd | 2. Llygredd aer | <p>2.1. Mae lefelau uchel o gyfoethogi maethynnau o ddyddodiad nitrogen atmosfferig yn effeithio'n ddifrifol ac yn negyddol ar fioamrywiaeth mewn glaswelltir, a all hefyd achosi asideiddio'r pridd. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1 a 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>2.2. Yn arwain at lai o rywogaethau mewn cynefin glaswelltir trwy effeithiau dwbl ewtroffeiddio ac asideiddio'r pridd. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1 a 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> |
| Newid yn nefnydd tir | 3. Rheolaeth annigonol | <p>3.1. Yn arwain at ddirywiad yng nghyfoeth a chyflwr rhywogaethau planhigion, gor-drechedd rhywogaethau tal, cadarn, ac, yn y pen draw, colli glaswelltir i frysgdir. Asesiad hyder: UCHEL Nod 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>3.2. Mae tanreoli a gorburi yn debygol o ddisbyddu adnoddau peillwyr, yn ogystal ag achosi dirywiad cyffredinol mewn rhywogaethau. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>3.3. Mae tanreoli yn golygu cynhyrchiant is o dda byw a mwy o lwytho tanwydd, sy'n golygu risg uwch o dannau. Asesiad hyder: CANOLIG Nod 3 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> |

| Prif sbardunau | Pwysau | Effaith |
|------------------------------------|------------------------------|---|
| <p>Newid yn nefnydd tir</p> | <p>4. Dwysâd amaethyddol</p> | <p>4.1. Ystyrir mai colli glaswelltiroedd gwlyb yr iseldir yw prif achos y gostyngiad yn y gornicyll. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>4.2. Lefelau uwch o gywasgu pridd, a all leihau gallu'r pridd i ddal dŵr ac felly o bosibl gynyddu'r risg o lifogydd. Asesiad hyder: CANOLIG Nod 3 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>4.3. Mae lefelau uchel o daenu gwrtaith yn arwain at ddirywiad yn amrywiaeth a chyflwr glaswelltir, ac yn y pen draw colli cynefinoedd. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1 a 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>4.4. Yn debygol o ddisbyddu adnoddau peillwyr, yn ogystal ag achosi dirywiad cyffredinol mewn rhywogaethau. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>4.5. Yn arwain at ddarnio – mae diffyg cysylltedd ecolegol glaswelltiroedd lled-naturiol yn arwain at ynysu rhywogaethau llai symudol, gan eu rhoi mewn mwy o berygl o ddiflannu. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1 a 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> |

| Prif sbardunau | Pwysau | Effaith |
|---------------------------------|---|--|
| Newid yn nefnydd tiroedd | 5. Rheolaeth annigonol | <p>5.1. Yn achosi safleoedd gwarchoddedig i beidio â chael eu rheoli'n briodol, gan arwain at gyflwr gwael. Asesiad hyder: UCHEL Nod 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>5.2. Gall safleoedd gwarchoddedig ddod yn 'ynyoedd cynefin', gyda chysylltiad gwael â darnau eraill o gynefinoedd. Asesiad hyder: UCHEL Nod 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>5.3. Gellir colli safleoedd nad ydynt yn cael eu gwarchod, er enghraifft trwy daenu gwrtaith. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1 a 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> |
| Newid yn nefnydd tir | 6. Datblygiad a seilwaith adeiledig | <p>6.1. Mae ardaloedd o laswelltir lled-naturiol y tu allan i'r rhwydwaith o safleoedd statudol mewn mwy o berygl yn lleol o ddatblygu tir, gan gynnwys ffyrdd newydd, gwaith chwarela a thai. Asesiad hyder: CANOLIG Nod 1 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> |
| Newid yn nefnydd tir | 7. Mynediad, chwaraeon a gweithgareddau hamdden heb eu rheoli | <p>7.1. Mae difrod hamdden i laswelltir calchaid a chalaminaidd yr ucheldir yn arwyddocaol yn lleol. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1 a 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> |

| Prif sbardunau | Pwysau | Effaith |
|--|------------------------------------|--|
| Newid yn nefnydd tir | 8. Cystadleuaeth yn nefnydd tir | 8.1. Hyd yma, cofnodwyd colledion bach o laswelltir lled-naturiol i goedwigo (hyder uchel), ond mae'r bygythiad yn debygol iawn o fod yn fwy yn y dyfodol wrth i goedwigo gynyddu i helpu gyda'r newid yn yr hinsawdd. Asesiad hyder: CANOLIG Nod 1 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| Rhywogaethau estron goresgynnol, plâu a chlefydau | 9. Rhywogaethau estron goresgynnol | 9.1. Gall rhywogaethau fel cotoneaster ymledu dros laswelltir calchaid os na chânt eu rheoli. Gall tanreoli glaswelltiroedd gwlyb gynorthwyo at ledaeniad jac y neidiwr. Asesiad hyder: UCHEL Nod 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |

Cyfleoedd ar gyfer gweithredu

Nod 1: Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Gwella'r dull rheoleiddio. Atal colli neu ddifrodi cynefin glaswelltir, e.e. yn Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth), trwy blannu coed (gan gynnwys Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth)) ac mewn penderfyniadau cynllunio. Dileu bylchau rheoliadol niweidiol. Gwella rheoleiddio allyriadau niweidiol a lleoli ffynonellau llygredd lleol fel unedau dofednod. Rhoi arweiniad clir ac ymgorffori amcanion ac egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth reoleiddio.

Dynodi mwy o gynefinoedd glaswelltir. Dim ond 10% o gynefinoedd glaswelltir â blaenoriaeth sydd ar safleoedd gwarchoddedig ar hyn o bryd, sy'n sylweddol is na tharged y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol o 17% (o ardaloedd daearol ar safleoedd gwarchoddedig). Mae nifer o safleoedd glaswelltir nad ydynt yn cael eu gwarchod sydd o ddiddordeb cadwraeth uchel (darpar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) eisoes wedi'u nodi.

Cynhyrchu targedau ar gyfer sicrhau cyflwr glaswelltir da ar safleoedd gwarchoddedig. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod 70% o gynefinoedd glaswelltir ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig mewn cyflwr gwael, a thanreoli yw'r prif achos (gweler adran 2.1.1). Cynyddu cwmpas ac effeithiolrwydd cytundebau rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Sicrhau bod gan gynlluniau amaeth-amgylcheddol ddigon o adnoddau a bod cymhellion yn ddigonol i annog pobl i gymryd rhan mewn cynlluniau ar gyfer cynefinoedd glaswelltir. Dim ond 19% o gynefinoedd glaswelltir â blaenoriaeth sydd wedi'u mapio sydd wedi'i gwmpasu gan opsiynau glaswelltir Glastir Uwch yn ystod y blynyddoedd diwethaf (2012 i 2019).

Targeddu adfer a chreu glaswelltiroedd. I wella cysylltedd ecolegol a chynyddu gwynwch ecosystemau, e.e. o amgylch safleoedd gwarchodedig, a gwella darpariaeth gwasanaethau ecosystemau, e.e. ar orlifdiroedd (lleihau lefelau llygredd dŵr a pherygl llifogydd), yn agos at gartrefi (gwasanaethau diwylliannol ac addysgol) neu'n agos at gnydau wedi'u peillio (gwasanaeth peillio).

Ymgymryd â gwaith ymchwil yn yr ecosystem i ddeall strwythur, swyddogaeth, ffrwythlondeb a chylchredau maetholion (gan gynnwys carbon pridd) ei phriddoedd yn well.

Creu dull cydlynol ac integredig o ddefnyddio tir ac o flaenoriaethu newid y dull rheoli ar draws yr holl ecosystemau ar raddfeydd priodol. Gallai hyn helpu i ategu darpariaeth sy'n seiliedig ar leoedd.

O gofio bod cynnydd mewn glaswelltir asid ucheldirol yn rhan olaf yr 20fed ganrif oherwydd gorbori ar rostiroedd, dylid ystyried adfer peth glaswelltir asid yn ôl i rostir, gan ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae llwyni ericoid i'w cael yn aml o hyd.

Nod 2: Ecosystemau gwydn

Gwella'r dull rheoleiddio. Atal colli neu ddfrodi cynefinoedd glaswelltir, e.e. yn Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth), trwy blannu coed (gan gynnwys Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth)) ac mewn penderfyniadau cynllunio. Dileu bylchau rheoliadol niweidiol. Gwella rheoleiddio allyriadau niweidiol a lleoli ffynonellau llygredd lleol fel unedau dofednod. Rhoi arweiniad clir ac ymgorffori amcanion ac egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth reoleiddio.

Targeddu adfer a chreu glaswelltiroedd. I wella cysylltedd ecolegol a chynyddu gwynwch ecosystemau, e.e. o amgylch safleoedd gwarchodedig, a gwella darpariaeth gwasanaethau ecosystemau, e.e. ar orlifdiroedd (lleihau lefelau llygredd dŵr a pherygl llifogydd), yn agos at gartrefi (gwasanaethau diwylliannol ac addysgol) neu'n agos at gnydau wedi'u peillio (gwasanaeth peillio).

Ystyried cymysgeddau o gynefinoedd. Mae gwynwch ecolegol yn cael ei wella'n sylweddol lle mae glaswelltir lled-naturiol i'w gael mewn cymysgeddau â chynefinoedd eraill i ffurfio darnau cynefin mwy sylweddol. Mae glaswelltiroedd yn aml yn cael eu canfod wedi'u cymysgu â chynefinoedd rhostir, gwlyptir a choetir; mae cymysgeddau o'r fath, a'r trawsnewidiadau rhwng cynefinoedd, yn bwysig ar gyfer ystod o rywogaethau.

Gall creu glaswelltir wedi'i dargeddu, yn ogystal ag adfer safleoedd presennol, wella gwynwch ecosystemau a buddion gwasanaeth ymhellach wrth ffurfio rhan o rwydweithiau ecolegol pwysig presennol.

O gofio bod cynnydd mewn glaswelltir asid ucheldirol yn rhan olaf yr 20fed ganrif oherwydd gorbori ar rostiroedd, dylid ystyried adfer peth glaswelltir asid yn ôl i rostir, gan ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae llwyni ericoid i'w cael yn aml o hyd.

Cynhyrchu targedau ar gyfer sicrhau cyflwr glaswelltir da ar safleoedd gwarchodedig. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod 70% o gynefinoedd glaswelltir ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig mewn cyflwr gwael, a thanreoli yw'r prif achos (gweler adran 2.1.1). Cynyddu cwmpas ac effeithiolrwydd cytundebau rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Sicrhau bod gan gynlluniau amaeth-amgylcheddol ddigon o adnoddau a bod cymhellion yn ddigonol i annog pobl i gymryd rhan mewn cynlluniau ar gyfer cynefinoedd glaswelltir. Dim ond 19% o gynefinoedd glaswelltir â blaenoriaeth sydd wedi'u mapio sydd wedi'i gwmpasu gan opsiynau glaswelltir Glastir Uwch yn ystod y blynyddoedd diwethaf (2012 i 2019)

Rheoli tir yn gynaliadwy. Symud ffocws rheoli glaswelltir i ffwrdd o gynhyrchu bwyd yn bennaf i nifer o ddarpariaethau gwasanaethau ecosystemau a ddarperir gan reoli dwysedd isel: lleihau lefelau llygredd, darparu cynefin peillio, lleihau perygl llifogydd ac ati, a darparu bwyd o ansawdd uchel mewn ffordd gynaliadwy. Darparu cymhellion digonol, e.e. cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Gwella gwytnwch yn wyneb newid yn yr hinsawdd.

Nod 3: Lleoedd iach i bobl

Gwella'r dull rheoleiddio. Atal colli neu ddifrodi cynefinoedd glaswelltir, e.e. yn Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth), trwy blannu coed (gan gynnwys Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth)) ac mewn penderfyniadau cynllunio. Dileu bylchau rheoliadol niweidiol. Gwella rheoleiddio allyriadau niweidiol a lleoli ffynonellau llygredd lleol fel unedau dofednod. Rhoi arweiniad clir ac ymgorffori amcanion ac egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth reoleiddio.

Cynhyrchu targedau ar gyfer sicrhau cyflwr glaswelltir da ar safleoedd gwarchoddedig. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod 70% o gynefinoedd glaswelltir ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig mewn cyflwr gwael, a thanreoli yw'r prif achos (gweler adran 2.1.1). Cynyddu cwmplas ac effeithiolrwydd cytundebau rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Sicrhau bod gan gynlluniau amaeth-amgylcheddol ddigon o adnoddau a bod cymhellion yn ddigonol i annog pobl i gymryd rhan mewn cynlluniau ar gyfer cynefinoedd glaswelltir. Dim ond 19% o gynefinoedd glaswelltir â blaenoriaeth sydd wedi'u mapio sydd wedi'i gwmpasu gan opsiynau glaswelltir Glastir Uwch yn ystod y blynyddoedd diwethaf (2012 i 2019).

Targedu adfer a chreu glaswelltiroedd. Gwella cysylltedd ecolegol a chynyddu gwytnwch ecosystemau, e.e. o amgylch safleoedd gwarchoddedig, a gwella darpariaeth gwasanaethau ecosystemau, e.e. ar orlifdiroedd (lleihau lefelau llygredd dŵr a pherygl llifogydd), yn agos at gartrefi (gwasanaethau diwylliannol ac addysgol) neu'n agos at gnydau wedi'u peillio (gwasanaeth peillio).

Creu dull cydlynol ac integredig o ddefnyddio tir ac o flaenoriaethu newid y dull rheoli ar draws yr holl ecosystemau ar raddfeydd priodol. Gallai hyn helpu i ategu darpariaeth sy'n seiliedig ar leoedd.

Nod 4: Economi adfywiol

Gwella'r dull rheoleiddio. Gyda'r nod o atal colli neu ddifrodi cynefinoedd glaswelltir, e.e. yn Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth), trwy blannu coed (gan gynnwys Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth)) ac mewn penderfyniadau cynllunio, gan gynnwys wrth leoli ffynonellau llygredd lleol fel unedau dofednod. Darparu canllawiau clir ac ymgorffori egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Ailgyflwyno pori ar safleoedd sydd heb eu rheoli'n ddigonol i ddarparu cynhyrchu bwyd cynaliadwy a chynyddu buddion ecosystem eraill ar yr un pryd.

Cynhyrchu targedau ar gyfer sicrhau cyflwr glaswelltir da ar safleoedd gwarchoddedig. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod 70% o gynefin glaswelltir ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig mewn cyflwr gwael, a thanreoli yw'r prif achos (gweler adran 2.1.1). Cynyddu cwmpas ac effeithiolrwydd cytundebau rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Safonau cynaliadwy ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth a datblygu. Os ydym am gydbwysu gwella strwythur a gweithrediad ein hecosystemau ochr yn ochr â darparu bwyd, ffeibr a lleoedd lle'r ydym yn byw ac yn gweithio (seilwaith), rhaid i ni allu disgrifio 'beth yw da'. Rhaid i asesu a mesur 'da' fod yn gydlynol, yn gyson ac yn ddealladwy. Rhaid i 'dda' fod yn ymatebol i'n monitro a'n modelu os yw mesurau effeithiol am sicrhau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r canlyniadau llesiant yr ydym yn eu ceisio.